# <u>Cyngor Cymuned Llanycil.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 13eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Catrin Charles, Arwel Davies a Huw Edwards.

i) Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod.
Derbyniwyd llythyr gan Catrin Charles yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Gofynnwyd i'r clerc anfon gair o ddiolch iddi ac i hysbysu Cyngor Gwynedd am y sedd wag ar y Cyngor.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.
Etholwyd Rhys Richards yn gadeirydd a Rhys Jones yn is-gadeirydd.

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Arwel Davies a Rhys Richards.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones.
Cyfarfodydd Lleol yr Heddlu – Arwel Davies a Rhys Richards

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

v) Cyfrifon 2024-25.
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2024-25 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.
Roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

vii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2025/26.
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

viii) Adolygu Asedau.
Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd fod y llochesi bws wedi cael ei archwilio ac nid oedd unrhyw fater i'w drafod

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.
Cytunwyd i fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol newydd a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru. Adolygwyd y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Mewnol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: ………………………………………….  Dyddiad:……………………..